**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Rheoli Asedau yn y Sector Cyhoeddus

Awst 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8409
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

Mae gwybodaeth am y Pwyllgor, ei aelodau, ei gylch gwaith a'i gyhoeddiadau blaenorol i'w chael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=229**

Mae rhestr o dystion a thystiolaeth lafar ac ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn ar gael yn: **http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5722**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Rheoli Asedau yn y Sector Cyhoeddus

Awst 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Cyllid**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Paul Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Ann Jones****
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Ieuan Wyn Jones***
Plaid Cymru
Ynys Môn

* Mynychodd Ieuan Wyn Jones yr holl sesiynau casglu tystiolaeth ond roedd wedi ymddiswyddo cyn cynhyrchu'r adroddiad terfynol.
**Mynychodd Vaughan Gething, Llafur, De Caerdydd a Phenarth, ein sesiwn casglu tystiolaeth olaf yn lle Ann Jones.

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**Argymhellion y Pwyllgor** ........ **7**

**1. Cyflwyniad** ........ **10**

Argymhellion blaenorol ........ 10

**2. Cysylltiadau Strategol** ........ **12**

Rheoli Asedau yn Llywodraeth Cymru ........ 12

Rheoli'r ystad weinyddol ........ 12

Strategaeth rheoli asedau gyffredinol ar gyfer Llywodraeth Cymru? ........ 14

Dull o reoli asedau yn y sector cyhoeddus ehangach (cysylltiadau Strategol) ........ 16

**3. Systemau a phrosesau** ........ **21**

Y wybodaeth sydd ar gael ar gyfer meincnodi a rheoli perfformiad (*Systemau a phrosesau)* ........ 21

Trefniadau cydweithio (*Systemau a phrosesau*) ........ 24

Trosglwyddo tir ac eiddo (*Systemau a phrosesau*) ........ 27

**4. Adnoddau a gwerth am arian** ........ **31**

Yr adnoddau sydd ar gael fel rhwystr i wella ........ 31

Yr adnoddau sydd ar gael i'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol ........ 33

Gwerth am arian ........ 33

**5. Arferion da** ........ **35**

Canolfan arbenigedd (Canllawiau ac arferion da) ........ 35

Corff annibynnol sy'n arolygu sut y rheolir asedau ........ 35

Porth canolog ar gyfer rhannu sgiliau, arferion da a chanllawiau 37

**Atodiad A** ........ **41**

**Tystion** ........ **42**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ........ **44**

## Rhagair y Cadeirydd

Mae amodau economaidd newidiol wedi arwain at ddiddordeb newydd ym maes rheoli asedau, maes na fu llawer o sôn amdano hyd yma. Wrth i gyllidebau grebachu, mae arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru a'r DU yn dechrau sylweddoli bod angen i bob rhan o'r sefydliad fod mor effeithlon â phosibl: felly mae rheoli asedau yn dringo i fyny'r agenda.

Yn syml, mae rheoli asedau'n effeithlon yn arbed arian. Po leiaf sydd gennych i wario ar lety, po fwyaf sydd ar gyfer gwasanaethau rheng flaen.

Daethom i edrych ar y maes hwn ar ôl clywed am faterion cysylltiedig yn ein hymchwiliad i *Bwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf*, a hefyd ar ôl clywed ambell enghraifft ysbrydoledig yn ystod ein gwaith ar y *Cynllun Buddsoddi i Arbed*. Clywsom am enghreifftiau lle arbedwyd miliynau drwy resymoli gofod swyddfa, neu drwy osod paneli solar ar adeiladau a oedd eisoes yn bodoli.

Roedd gennym ddau brif bryder: pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli ei asedau ei hun; a pha mor effeithiol yw o ran y cyfarwyddyd a'r cymorth y mae'n eu rhoi i'r sector cyhoeddus ehangach. Cymysg yw'r dystiolaeth o ran y naill a'r llall.

O fewn y Llywodraeth, mae asedau wedi eu his-rannu'n ddryslyd, gyda maenoriaethau gweinidogol unigol yn cael blaenoriaeth dros gyfanrwydd integredig. Ac ar y tu allan, mae'n amlwg nad yw'r cyngor sydd ar gael bob tro yn cael ei ddilyn a bod data anghyson yn peri bod monitro effeithiol yn amhosibl bron iawn.

Ac eto, clywsom dro ar ôl tro bod Cymru ar flaen y gad yn y DU a bod rhannau eraill o'r DU yn ceisio dilyn esiampl Cymru. Awgryma'r dystiolaeth bod y naill a'r llall yn wir.

Yr hyn sy'n amlwg i ni yw bod angen newid sylweddol ym maes rheoli asedau. Mae cronfa fach o arbenigedd, ac mae angen ei meithrin a'i datblygu. Ac mae angen i uwch arweinwyr roi mwy o flaenoriaeth i'r maes. Ymddengys bod buddsoddi mewn effeithlonrwydd cefn swyddfa yn codi braw ar arweinwyr uchelgeisiol mewn byd sy'n rhoi'r holl

bwyslais ar wasanaethau rheng flaen. Ond os nad oes modd mantoli'r cyfrifon, ni fydd 'gwasanaethau rheng flaen'.

Rwy'n gobeithio bod yr ymchwiliad hwn o leiaf wedi codi proffil rheoli asedau, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr ymchwiliad am eu mewnbwn.

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer ei hystad weinyddol yn ei chyfanrwydd, (neu ei bod yn diwygio cynnwys yr Adroddiad ar Gyflwr yr Ystad) gyda thargedau priodol, ac yn adrodd yn rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y targedau hynny. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 2**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio Strategaeth Rheoli Asedau drosfwaol sy'n cynnwys POB ased sydd yn ei meddiant, nid ei hystad weinyddol yn unig. Nid yw hyn yn awgrymu y dylid rheoli'r asedau o'r canol o reidrwydd; ond bod strategaeth glir ar gyfer rheoli'r sail asedau sy'n gysylltiedig ag amcanion a nodau ehangach. Byddai angen i strategaeth o'r fath gael ei hategu gan Gynlluniau Rheoli Asedau unigol ar gyfer pob maes portffolio, (yn enwedig gan yr Is-adran Busnes a Menter) i ddarparu'r hyblygrwydd sydd ei angen i reoli'r asedau ar y lefel hon, yn unol â gofynion a blaenoriaethau pob portffolio. (Tudalen 16)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n adrodd yn ôl yn flynyddol ar sut mae'n gweithio gydag uwch arweinwyr ar draws y sector cyhoeddus i amlygu'r pwysigrwydd a'r manteision a all ddeillio wrth reoli asedau yn gadarn, a diweddaru cofnodion a chynlluniau i'w cadw'n gyfredol. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 4.** Nodwn y cydnabyddir yn eang fod llywodraeth leol - sy'n gorfod llunio cynlluniau rheoli asedau - yn gryfach yn y maes hwn na meysydd eraill o'r sector cyhoeddus. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a ddylid ymestyn y gofyniad hwn i lunio cynlluniau rheoli asedau i rannau eraill o'r sector cyhoeddus. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cytuno â rhanddeiliaid perthnasol ar gyfres o ddangosyddion sydd wedi'u symleiddio, fel y gellir asesu ac adrodd yn glir a phriodol ar gyflwr a pherfformiad asedau. Wrth wneud hynny, dylid ystyried y

gyfres o ddangosyddion a ddefnyddir yn yr Alban a Lloegr. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau o annog, neu orchymyn, casglu neu ddefnyddio dangosyddion y cytunir arnynt yn gyson ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. (Tudalen 24)

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell fod y Gweithgor Asedau Cenedlaethol yn cymryd camau i sicrhau bod pob prosiect cydweithio'n ystyried yn y cyfnod cynnar a oes, neu a ddylai bod, elfen rheoli asedau yn y prosiect. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad trylwyr o'r cymhellion a'r anghymhellion sy'n effeithio ar drosglwyddo asedau, o fewn Llywodraeth Cymru ei hun ac yn y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Yn benodol, credwn fod y ffaith fod cyrff iechyd ond yn gallu cadw'r £500,000 cyntaf yn unig o unrhyw ddêl am asedau yn llesteirio unrhyw weithgarwch ar raddfa fawr. Rydym yn argymell y dylid disodli hyn gyda chyfran y cytunir arni o gyfanswm gwerth yr ased, er mwyn annog trosglwyddiadau strategol ar raddfa fawr, pan fo hyn yn golygu rheoli eiddo'n briodol. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod cyrff cyhoeddus yn cael gwell cymhellion i reoli eu hasedau'n effeithiol, drwy sicrhau eu bod yn cael cadw cyfran briodol o unrhyw werth a geir yn sgil trosglwyddo neu waredu. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylid defnyddio Strategaeth Rheoli Asedau Llywodraeth Cymru (fel y cyfeirir ati yn argymhelliad 2) i gynorthwyo i nodi asedau ac eiddo sydd ar gael ar gyfer eu trosglwyddo, naill ai rhwng adrannau, neu i sefydliadau eraill, er mwyn mynd i'r afael â'r gred bod adrannau'n gweithio heb ymwneud ag eraill. Dylid sicrhau bod trosglwyddiadau o'r fath yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cymru a rhai adrannau unigol. O ystyried y pryderon mewn perthynas ag effaith trosglwyddiadau o'r fath ar gyllidebau adrannau, dylid sefydlu protocolau er mwyn sicrhau pan nodir asedau ar gyfer eu trosglwyddo, nad yw'r adran sy'n trosglwyddo yn cael ei llesteirio gan unrhyw effaith niweidiol bosibl ar gyllideb eu hadran. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru (drwy'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol) yn gwneud mwy i annog sefydliadau sector cyhoeddus i weld asedau fel 'galluogwyr' polisi a darpariaeth

gwasanaethau ac i rannu'r arferion da a welir yn y maes hwn. (Tudalen 33)

**Argymhelliad 11.** Fodd bynnag, mae cwestiwn yn codi am gapasiti'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol i sbarduno'r agenda hon. Argymhellwn y dylai pob partner ystyried lefel yr adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni'r gwaith sy'n ddisgwyliedig gan y Gweithgor, ac a ddylai'r adnodd hwnnw ddod gan Lywodraeth Cymru, neu o gyfraniad wedi'i rannu ymysg yr holl bartneriaid. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 12.** Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn credu bod ei dull yn cyflawni manteision tebyg i ddull mwy canolog Llywodraeth yr Alban, heb y costau a delir ymlaen llaw o sefydlu corff newydd. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n parhau i fonitro canlyniadau y ddau ddull er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael manteision tebyg. (Tudalen 36)

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio drwy Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod enghreifftiau o arferion da yn cael eu rhannu, nid yn unig ymysg y rhai ym maes rheoli asedau, ond hefyd ymysg uwch arweinwyr er mwyn sicrhau bod enghreifftiau da yn cael eu rhoi ar waith. (Tudalen 40)

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a ellid sicrhau bod yr arbenigedd sydd ganddi eisoes ymysg ei staff ei hun ar gael yn ehangach i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, a dylai bwyso a mesur y posibilrwydd o secondiadau i/o feysydd eraill o'r sector cyhoeddus. (Tudalen 40)

# 1. Cyflwyniad

1. Cytunodd y Pwyllgor Cyllid i edrych ar y mater hwn ar 25 Hydref 2012.

2. Mae'r Cylch Gorchwyl[1] yn nodi dau brif faes ymchwil: y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n rheoli ei hasedau ei hun, a sut mae'n cefnogi a hyrwyddo rheoli asedau'n effeithiol yn y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

3. Ym mis Tachwedd 2012, lansiwyd ein hymgynghoriad, ac mae manylion yr ymatebion i'w gweld ar wefan y pwyllgor [2]. I ategu'r wybodaeth hon, cyhoeddwyd arolwg byr hefyd i awdurdodau lleol, a chyrff cyhoeddus eraill.

4. Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro ar sail y themâu canlynol:

**Cysylltiadau strategol** – y cysylltiadau rhwng rheoli asedau ac amcanion polisi a strategol ehangach sefydliad y sector cyhoeddus, gan gynnwys cynlluniau ariannol ac ymdrechion ar y cyd. Buom hefyd yn ystyried cyfrifoldeb ac arweinyddiaeth ym maes rheoli asedau.

**Systemau a phrosesau** – y prosesau a'r arferion sydd ar waith ar gyfer rheoli asedau, gan gynnwys y wybodaeth sydd ar gael a sut y mesurir/gwerthusir perfformiad er mwyn asesu ei effeithlonrwydd.

**Adnoddau a gwerth am arian** – yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer rheoli asedau, gan gynnwys capasiti a gallu a sut yr asesir ac y dangosir gwerth am arian.

**Arferion da** – y gefnogaeth a'r canllawiau sydd ar gael i hyrwyddo arferion gorau ym maes rheoli asedau, y gwersi a ddysgwyd yng Nghymru a chan fannau eraill, a'r mecanweithiau a ddefnyddir i hyrwyddo a lledaenu'r gwersi hyn.

### *Argymhellion blaenorol*

5. Roedd adroddiad y Pwyllgor ar Bwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf yn cynnwys adran ar reoli asedau.[3]

---

[1] Gweler Atodiad A

[2] Mae manylion llawn yr ymchwiliad ar gael ar wefan y pwyllgor http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=4996

[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, *Pwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf*, Gorffennaf 2012 [fel ar 16 Tachwedd 2012]

Gwnaeth ddau argymhelliad a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â rheoli asedau.

> "Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu asesiad annibynnol o ansawdd rheoli asedau ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru, gyda ffocws penodol ar adolygu'r systemau sydd ar waith er mwyn sicrhau bod anghenion buddsoddi'n cael eu herio'n gadarn. Yn amodol ar ganfyddiadau asesiad o'r fath, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y gwersi y gellid eu dysgu gan yr Alban ar rôl corff annibynnol i herio'r asesiad o anghenion buddsoddi gan gyrff cyhoeddus."

6. Yn eu hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddai adolygiad annibynnol yn briodol ar hyn o bryd. Crybwyllodd yr Adroddiad ar Gyflwr yr Ystad, y cynnydd wrth weithredu Rhaglen Strategaeth Leoli Llywodraeth Cymru a gwaith Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus fel tystiolaeth ei bod yn mynd i'r afael â rheoli asedau. Nododd hefyd gost adolygiad annibynnol.

> "Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwersi y gellid eu dysgu gan yr Alban ar rôl corff annibynnol i gydlynu'r gwaith o gynllunio rheolaeth asedau a gwneud penderfyniadau ar draws ffiniau amlasiantaeth."

7. Derbyniodd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad hwn, gan ddweud bod y Gweithgor Asedau Cenedlaethol yn gweithio gyda sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ar waith amlasiantaeth o'r fath. Ond dadleuodd y byddai sefydlu a chynnal corff annibynnol (fel yn yr Alban) yn creu costau parhaus ac felly nid yw wedi gwneud hynny.[4]

8. Roedd adroddiad diweddar y Pwyllgor ar y Cynllun Buddsoddi i Arbed[5] hefyd yn crybwyll nifer o brosiectau rheoli asedau. Roeddem yn arbennig o fodlon â'r dystiolaeth lafar a dderbyniwyd gennym gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi defnyddio cyllid Buddsoddi i Arbed i resymoli eu hystad.

---

[4] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Ymateb gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Pwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf*, Awst 2012 [fel ar 16 Tachwedd 2012]

[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Buddsoddi i Arbed – Mawrth 2013

# 2. Cysylltiadau Strategol

## Rheoli Asedau yn Llywodraeth Cymru

### *Rheoli'r ystad weinyddol*

9. Mae Strategaeth Leoli 2010-15 Llywodraeth Cymru yn amlinellu strategaeth pum mlynedd "*i barhau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ystad swyddfeydd gweinyddol Llywodraeth Cymru*."[6] Mae ail gam y strategaeth bellach ar waith.

10. Yn ei phapur i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2013, dywedodd y Gweinidog Cyllid:

> "Dros ddwy flynedd lawn gyntaf y Strategaeth Leoli (2010-15), gwelwyd gostyngiad yn nifer yr eiddo yn yr Ystad o 75 (65 swyddfa) i 52 (44 swyddfa) gydag arbedion cronnol o £4,898,704 yn y costau rhedeg. Ar ddiwedd cyfnod y strategaeth, ar sail yr amcanestyniadau a'r polisïau cyfredol, bydd 21 eiddo yn yr ystad weinyddol (13 swyddfa)."[7]

11. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi ei bwriad i archwilio cam un y Strategaeth Leoli, er mwyn nodi a gyflawnwyd yr amcanion mewn ffordd sy'n gynaliadwy ac sy'n cynnig gwerth am arian. Gallai'r adroddiad hwn hefyd ystyried cynnydd ail gam y rhaglen. Bwriedir cyhoeddi'r cyhoeddiad hwn yn haf 2013.[8]

12. Cyhoeddwyd Adroddiad ar Gyflwr yr Ystad 2011/12 diweddaraf Llywodraeth Cymru [9] ar 7 Tachwedd 2012. Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol ar ystad weinyddol Llywodraeth Cymru ac mae'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd a pherfformiad amgylcheddol.

13. Gellir gweld adroddiadau Cyflwr yr Ystad blaenorol ar wefan Llywodraeth Cymru.[10]

---

[6] Llywodraeth Cymru, Cyfarfod y Cabinet 26 Gorffennaf 2011 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[7] FIN(4) 02-13 Papur 2 – Tystiolaeth ar Reoli Asedau gan y Gweinidog Cyllid, Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[8] Swyddfa Archwilio Cymru, *Rhaglen Astudiaethau Gwerth am Arian: Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus*, Ionawr 2012 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[9] Llywodraeth Cymru, *Cyflwr yr Ystad 1 Ebrill 2011 - 31 Mawrth 2012*, Tachwedd 2012 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[10] Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru, Ein Hadeiladau. Noder: ers cyhoeddi adroddiad 2011/12 ar 7 Tachwedd 2012, ymddengys bod y dolenni i adroddiad 2010/11 wedi torri, ac felly nid yw'n bosibl ei gyrchu bellach. [fel ar 11 Ebrill 2013]

14. Mae'r adroddiad yn cyfeirio'n unig at ofod swyddfa a ddaliwyd fel rhan o'r ystad weinyddol, a oedd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2012. Nid yw'n cynnwys eiddo arbenigol fel pafiliwn Maes Sioe Frenhinol Cymru, cyfleusterau storio neu eiddo y tu allan i Gymru.[11] Mae hefyd yn nodi bod 10 eiddo o'r ystad weinyddol wedi'u heithrio o'r adroddiad, ar sail eu 'diben arbennig'.[12]

15. Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig i'r pwyllgor, roedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn feirniadol o rai o'r mesurau a ddefnyddiwyd yn yr Adroddiad ar Gyflwr yr Ystad a'i ddiffyg targedau penodol:

> "Counting the number of buildings is a crude measure, as the amount of space occupied is a more valuable indication of success in estate rationalisation. This is evidenced by the reduction in number of buildings of 16.33% over the past year, whilst floor area has reduced by only 5.58%.
>
> "Over the period March 2008 to March 2012 the number of buildings reduced by 46% with floor area reducing by only 8.7%.
>
> "…One weakness of the report is that the performance does not appear to be reported against any specific targets. Each indicator has a traffic light indicator which highlights whether or not performance is improving against that performance indicator. However, where performance has changed from one datum point to another, it is not clear whether this is actually good or bad compared to where the organisation could be. In other words, is performance on target against an overall strategy or not?"[13]

16. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth gyda swyddogion o'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol, wrth gael ei holi am y targedau i'w cyflawni mewn perthynas ag ystad weinyddol Llywodraeth Cymru, dywedodd Sioned Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Eiddo, wrth y Pwyllgor:

---

[11] Mae Atodiad 1 yr adroddiad yn rhoi manylion y gofod dan sylw. Llywodraeth Cymru *Cyflwr yr Ystad 1 Ebrill 2011 - 31 Mawrth 2012*, Tachwedd 2012 (Atodiad I) [fel ar 11 Ebrill 2013]

[12] Llywodraeth Cymru, *Cyflwr yr Ystad 1 Ebrill 2011 - 31 Mawrth 2012*, Tachwedd 2012 (Atodiad II) [fel ar 11 Ebrill 2013]

[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i Reoli Asedau, FIN(4) AM 05 – Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth [fel ar 11 Ebrill 2013]

"I am sorry, but we do not have targets in terms of actual figures. We have an indication of where we know we will be and where we are projected to be, but it is not a target."[14]

17. Yn ei thystiolaeth, dywedodd Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid:

"So, on your question about targets and projections, clearly, we set out what we sought to deliver in terms of our estate and savings that could be made, but Welsh Government businesses can change, so we have to ensure that we take that into account and there has to be some flexibility in delivery."[15]

18. Er ein bod yn derbyn yr angen am hyblygrwydd, credwn fod targedau'n hanfodol os yw Llywodraeth Cymru i gyflawni ei nod.

19. Mae un o'r tensiynau allweddol drwy'n hymchwiliad wedi deillio o'r ffaith nad Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer yr ystad weinyddol yw'r Adroddiad ar Gyflwr yr Ystad. Er ei fod yn cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth y byddai'r Cynllun Rheoli Asedau yn ei chynnwys, mae llawer o'i ddata yn gipolwg ar y sefyllfa.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer ei hystad weinyddol yn ei chyfanrwydd, (neu ei bod yn diwygio cynnwys yr Adroddiad ar Gyflwr yr Ystad) gyda thargedau priodol, ac yn adrodd yn rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y targedau hynny.**

### *Strategaeth rheoli asedau gyffredinol ar gyfer Llywodraeth Cymru?*

20. Mae Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru Llywodraeth Cymru yn cydnabod y dylid gwneud gwell defnydd o asedau:

"Mae a wnelo rheoli asedau eiddo mewn ffordd strategol â chysoni ein sail asedau â nodau ac amcanion corfforaethol a sicrhau bod ein sail asedau tir ac adeiladau wedi'i strwythuro yn y ffordd orau bosibl. Ein nod yw gwarchod holl seilwaith cyhoeddus Cymru mewn ffordd gyfrifol – gan weithio i feithrin gwybodaeth ganolog am holl asedau cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y rheini nas rheolir gan y sector cyhoeddus – eu cyflwr a'r rhwymedigaethau a'r goblygiadau cysylltiedig. Gallwn

---

[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 301] 30 Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[15]

wella'r broses o reoli ein sail asedau genedlaethol drwy gydweithredu o'r fath."[16]

21. Mewn perthynas â Chynllun Rheoli Asedau Corfforaethol, mae papur cynharach y Gweinidog yn nodi:

> "Byddai'r Strategaeth Leoli, fel y datblygid hi, yn rhan hanfodol o unrhyw Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a ddiweddarid gan Lywodraeth Cymru."[17]

22. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth gyda swyddogion o'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol, wrth gael eu holi a oedd gan Lywodraeth Cymru gynllun rheoli asedau tebyg i'r rhai sy'n ofynnol i awdurdodau lleol eu paratoi, ymatebodd swyddogion fel a ganlyn:

> "Individual areas and departments have their own monitoring systems for their assets. There are four big landholding departments, namely us, BETS, Cadw and transport. They all have different policy objectives and different budgets, and they manage them individually. At the moment, there is no overarching plan—we are relying on a plan that was produced in 2008-09, and we are operating in that way."[18]

23. Yn eu papur i'r Pwyllgor, awgrymodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth:

> "…there is evidence of a strategic vision for managing public assets in all devolved nations and Wales compares favourably with the other devolved nations although 'The State of the Estate Report' is not a full asset management plan and does not include all property."[19]

24. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth gydag Edwina Hart AC, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar y pryd, pan ofynnwyd iddi am y posibilrwydd o strategaeth rheoli asedau drosfwaol ar gyfer

---

[16] Llywodraeth Cymru, Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Pennod 3: Cyflawni'r cynllun, Mai 2012 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[17] FIN(4) 02-13 Papur 2 – Tystiolaeth ar Reoli Asedau gan y Gweinidog Cyllid, Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[18] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 304] 30 Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[19] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i Reoli Asedau, FIN(4) AM 05 – Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth [fel ar 11 Ebrill 2013]

Llywodraeth Cymru, awgrymodd efallai na fyddai hyn yn briodol o ystyried natur portffolio eiddo ei hadran. Dywedodd fod defnyddio asedau at ddibenion economaidd fel hyn yn wahanol iawn i sut y rheolir yr ystad weinyddol o'r canol.[20]

25. Ymddengys bod hyn yn cefnogi'r safbwynt sydd wedi'i weld mewn llawer o'r dystiolaeth a ddaeth i law, sef bod rheolaeth asedau ganolog Llywodraeth Cymru ond yn cyfeirio at yr ystad weinyddol a ddelir, fel y nodir hi yn yr Adroddiadau ar Gyflwr yr Ystad,[21] yn hytrach na'r posibilrwydd o ystyried strategaeth sy'n cynnwys holl asedau Llywodraeth Cymru ar draws pob maes portffolio, yn debyg i'r hyn sy'n ofynnol gan lywodraeth leol.

26. Nid yw'r Pwyllgor yn deall pam mae'r disgwyliadau sydd ar lywodraeth leol yn wahanol i rai Llywodraeth Cymru. Nid ydym yn deall sut y gellir cysoni'r sail asedau â nodau neu amcanion corfforaethol, pan nad oes cofrestr drosfwaol o gynnwys y sail asedau.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio Strategaeth Rheoli Asedau drosfwaol sy'n cynnwys POB ased sydd yn ei meddiant, nid ei hystad weinyddol yn unig. Nid yw hyn yn awgrymu y dylid rheoli'r asedau o'r canol o reidrwydd; ond bod strategaeth glir ar gyfer rheoli'r sail asedau sy'n gysylltiedig ag amcanion a nodau ehangach. Byddai angen i strategaeth o'r fath gael ei hategu gan Gynlluniau Rheoli Asedau unigol ar gyfer pob maes portffolio, (yn enwedig gan yr Is-adran Busnes a Menter) i ddarparu'r hyblygrwydd sydd ei angen i reoli'r asedau ar y lefel hon, yn unol â gofynion a blaenoriaethau pob portffolio.**

### *Dull o reoli asedau yn y sector cyhoeddus ehangach (cysylltiadau Strategol)*

27. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *Briffio Cenedlaethol Rheoli Adeiladau*[22], a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010 yn crynhoi canfyddiadau gwaith a wnaed ar draws y 30 o gyrff sector cyhoeddus mwyaf yng Nghymru. Daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol:

- Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario dros £500 miliwn y flwyddyn yn cynnal tir ac adeiladau gwerth tua £12

---

[20] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT 6 Mawrth 2013 [dolen ddim ar gael wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn]
[21] Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru, Ein hadeiladau [fel ar 11 Ebrill 2013]
[22] Swyddfa Archwilio Cymru, *Briffio Cenedlaethol Rheoli Adeiladau,* Mehefin 2010 [fel ar 11 Ebrill 2013]

biliwn. Fodd bynnag, nid yw tir nac adeiladau'r rhan fwyaf o sefydliadau'n cadw'n wastad â gofynion newidiol ac, o ganlyniad, nid ydynt yn sicrhau'r gwerth gorau am arian.

- Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi datblygu strategaethau sy'n ymwneud â thir ac adeiladau, ond nid yw llawer o'r rhain yn gyfredol, yn ddigon hyblyg neu nid oes digon o adnoddau ganddynt.
- Mae rheoli perfformiad tir ac adeiladau yn wan o ran pennu amcanion a monitro perfformiad felly mae'n aneglur a yw defnyddio tir ac adeiladau yn effeithiol yn gwella.

28. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i wneud nifer o argymhellion, gan gynnwys:

> "Dylai Llywodraeth y Cynulliad ei gwneud yn bosibl i reoli tir ac adeiladau'n fwy effeithiol ledled Cymru drwy ymgynghori â chyrff cyhoeddus er mwyn canfod pa ganllawiau, gwybodaeth, cymorth a chymhellion pellach y gall fod eu hangen er mwyn hybu dull gweithredu gwell a mwy cydgysylltiedig i reoli tir ac adeiladau."[23]

29. Yn adroddiad y Pwyllgor ar bwerau benthyg a dulliau o ddefnyddio arian cyfalaf, argymhellodd:

> "Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu asesiad annibynnol o ansawdd rheoli asedau ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru, gyda ffocws penodol ar adolygu'r systemau sydd ar waith er mwyn sicrhau bod anghenion buddsoddi'n cael eu herio'n gadarn. Yn amodol ar ganfyddiadau asesiad o'r fath, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y gwersi y gellid eu dysgu gan yr Alban ar rôl corff annibynnol i herio'r asesiad o anghenion buddsoddi gan gyrff cyhoeddus."[24]

30. Ni dderbyniodd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad hwn, gan nodi:

> "Er bod Llywodraeth Cymru'n cytuno gyda'r Pwyllgor bod gwaith o ansawdd da wrth reoli asedau'n hanfodol, mae'n credu nad yw adolygiad annibynnol yn briodol ar hyn o bryd. Mae'r Adroddiad blynyddol ar Gyflwr yr Ystad yn rhoi asesiad o

[23] Swyddfa Archwilio Cymru, *Briffio Cenedlaethol Rheoli Adeiladau*, Mehefin 2010 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[24] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, *Pwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf*, Gorffennaf 2012 [fel ar 11 Ebrill 2013]

berfformiad yr ystad weinyddol yn ôl dangosyddion meincnodol allweddol ac mae'r Is-adran Eiddo yn Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol ym maes rheoli asedau strategol, gan weithredu nifer o fentrau i wella effeithlonrwydd rheoli asedau'r sector cyhoeddus ar draws Cymru. Mae Rhaglen y Strategaeth Leoli o eiddo Llywodraeth Cymru yn sicrhau arbedion eisoes wrth i waith barhau gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella cydgysylltu a chydweithredu ym maes Rheoli Asedau, sy'n cael ei arwain gan Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus.

"Goblygiadau ariannol – Byddai comisiynu corff annibynnol yn creu costau. Ar hyn o bryd eir i gostau rhedeg adrannol wrth i Lywodraeth Cymru ddefnyddio adnoddau i asesu a gwella'r gwaith o reoli asedau ar draws y sector cyhoeddus."[25]

31. Fodd bynnag, ym mhapur cynharach y Gweinidog Cyllid i'r Pwyllgor, mae'n cydnabod y potensial am welliant yn y sector cyhoeddus ehangach:

"Mae eiddo'r sector cyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol o ran cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a gellir ei ddefnyddio i hybu'r gwaith o resymoli gwasanaethau. Byddai modd i sefydliadau yn y sector cyhoeddus gydweithio i wella gwaith cynllunio a gweithredu eu heiddo ac i roi hwb i waith cyflenwi gwasanaethau ledled Cymru gan sicrhau rhagor o fanteision a defnyddio llai o adnoddau."[26]

32. Yn ystod tystiolaeth gynharach, cafwyd awgrym y gall ymgysylltu a diddordeb mewn rheoli asedau fod yn broblem wrth fwrw'r maen i'r wal o ran gwelliannau. Er enghraifft, dywedodd swyddogion o'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol wrthym:

"We have been working with the national assets working group programme for some time now; probably the best part of two years, if not longer. From the experience that we have had to date, it is quite patchy. Some authorities and organisations are

---

[25] *Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Pwerau Benthyg a dulliau arloesol o ddefnyddio arian cyfalaf*, Awst 2012 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[26] FIN(4) 02-13 Papur 2 – Tystiolaeth ar Reoli Asedau gan y Gweinidog Cyllid, Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]

> very engaged, not only with their own systems, but in terms of collaboration. Others are less so."[27]

33. Yn ddiweddarach yn y sesiwn, nododd swyddogion nad ydynt yn cael llawer o adborth gan y sector cyhoeddus ar y gwaith hwn o ran rheoli asedau.[28]

34. Cafodd yr awgrym hwn ynglŷn â diffyg diddordeb neu ymgysylltu gan rai rhannau o'r sector cyhoeddus ei grybwyll hefyd gan CLlLC, a awgrymodd fod rheoli asedau ac eiddo'n cael eu hystyried fel 'gwasanaethau cymorth'.[29] Mae hyn fel pe bai'n adleisio rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r arolwg a gafodd y Pwyllgor, o ran sut roedd diddordeb ac ymgysylltiad sefydliadau â maes rheoli asedau yn amrywio, o safbwynt galluogi polisïau a darpariaeth gwasanaethau.

35. Nododd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth:

> "The Welsh Government established a requirement over ten years ago for each local authority to produce an AMP (Asset Management Plan). A framework for this was commissioned by CLAW in September 2001 and is widely regarded as a solid approach. The momentum that was generated by the production of the CLAW guidance has been lost and, aside from the continued success of CIPFA asset management network, there is little resource provided to support local authorities in developing their approaches. The Welsh Government requirement for local authorities to produce an AMP was not extended to other public sector bodies, and as a consequence asset management is generally not so strong in these areas."[30]

36. Mae'r dystiolaeth yn codi cwestiynau difrifol am y flaenoriaeth a roddir i reoli asedau, yn enwedig ar y lefelau uchaf, ac ymddengys bod cydnabyddiaeth fyd-eang bron iawn fod llawer mwy i'w wneud, er bod yr hinsawdd economaidd sydd ohoni wedi sbarduno mwy o ddiddordeb yn y maes hwn.

---

[27] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 72] 30 Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[28] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 185] 30 Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[29] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 28] 20 Chwefror 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[30] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad Rheoli Asedau, FIN(4) AM 05 - Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth [fel ar 11 Ebrill 2013]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n adrodd yn ôl yn flynyddol ar sut mae'n gweithio gydag uwch arweinwyr ar draws y sector cyhoeddus i amlygu'r pwysigrwydd a'r manteision a all ddeillio wrth reoli asedau yn gadarn, a diweddaru cofnodion a chynlluniau i'w cadw'n gyfredol.**

37. Yn ei thystiolaeth, dywedodd Lesley Griffiths ei bod, yn ei rôl fel Gweinidog gyda chyfrifoldeb am ddiwygio'r gwasanaeth cyhoeddus, yn disgwyl i bob corff cyhoeddus fod â Chynlluniau Rheoli Asedau Cyfredol – nid dim ond awdurdodau lleol yn unig.[31]

**Nodwn y cydnabyddir yn eang fod llywodraeth leol - sy'n gorfod llunio cynlluniau rheoli asedau - yn gryfach yn y maes hwn na meysydd eraill o'r sector cyhoeddus. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a ddylid ymestyn y gofyniad hwn i lunio cynlluniau rheoli asedau i rannau eraill o'r sector cyhoeddus.**

[31] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 29] 20 Chwefror 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]

# 3. Systemau a phrosesau

### Y wybodaeth sydd ar gael ar gyfer meincnodi a rheoli perfformiad (*Systemau a phrosesau)*

38. Mae ymateb Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru yn cyfeirio at feincnodi:

> "CLAW commissions annual benchmarking of key asset management performance indicators for unitary authorities through the Local Government Data Unit Wales. The indicators cover:
>
> – condition
>
> – cost of maintenance
>
> – office space planning
>
> – office occupation costs
>
> – levels of surplus and vacant property
>
> Results have been collated over several years which help to support individual organisations in mapping progress and in benchmarking across the sector, which can feed into individual asset management plans and strategies."[32]

39. Mae gan Uned Ddata Cymru wybodaeth am y meincnodi hwn ar eu gwefan, sy'n nodi:

> "The Data Unit was commissioned by the Consortium of Local Authorities in Wales (CLAW) to facilitate a national benchmarking exercise across the 22 local authorities in Wales. Building on the existing national indicators, Welsh authorities agreed a set of relevant benchmarking data in 2006-07.
> We continue to work closely with CLAW to develop, collect and disseminate the benchmarking data. The set is reviewed each year to ensure the needs of local government are being met.
> We provided specific bespoke analysis to aid in local and national discussions."[33]

---

[32] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *FIN(4) AM 07 – Consortiwm y Prif Syrfewyr Ystadau – Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru* [fel ar 11 Ebrill 2013]
[33] Uned Ddata Cymru, Meincnodi Rheoli Asedau [fel ar 11 Ebrill 2013]

40. Fodd bynnag, awgryma tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn fod y wybodaeth yn anghyson o un awdurdod i'r llall sy'n gwneud dadansoddi'n anodd ac nad yw llawer o awdurdodau yn dal i fod yn deall yn iawn eu problemau cynnal eiddo oherwydd diffyg data dibynadwy.[34] Ymddengys fod y broblem hon yn ehangach na llywodraeth leol, gydag adrannau eraill o'r sector cyhoeddus hefyd yn crybwyll bod diffyg gwybodaeth ddibynadwy yn broblem.

41. Mewn perthynas â mesur a meincnodi perfformiad, nododd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth:

> "In both England and Scotland there is an established suite of property performance indicators that have been developed by and for the local government community. Whilst CLAW is represented on the English group, this has not resulted in the area being developed by Welsh Authorities.
>
> "At present there is only one area of property performance that Welsh Authorities regularly measure, and that is property condition (via the Local Government Data Unit). Even this data is not collected by all 22 local authorities. In the most recent analysis year of 2010/2011 only 20 Authorities reported the condition of their buildings and only 19 reported the urgency of outstanding maintenance."[35]

42. Yn eu papur, nododd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth hefyd fod Cymru a Lloegr yn dilyn llwybrau gwahanol:

> "DCLG is currently consulting on a property attribute list that would mean all local authorities having to publish key data on its property assets, probably from April 2014. The Welsh Government has not pursued the same course."[36]

---

[34] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, *FIN(4) AM 08 – Cyngor Dinas Caerdydd* a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, *FIN(4) AM 02 - Blaenau Gwent* [fel ar 11 Ebrill 2013]

[35] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i Reoli Asedau, FIN(4) AM 05 – Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth [fel ar 11 Ebrill 2013]

[36] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i Reoli Asedau, FIN(4) AM 05 – Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth [fel ar 11 Ebrill 2013]

43. Roedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth hefyd yn ystyried cyflwr adeiladau llywodraeth leol (ar sail eu hasesiad eu hunain) ac yn awgrymu:

> "Welsh local government is lagging behind their English counterparts in every measure, and also lagging behind Scotland in measures around building condition.
>
> …
>
> "This snapshot raises a serious issue around the economic sustainability of the current building stock for some Welsh authorities risking future funding difficulties. On a positive note Welsh local authorities appear to be keeping condition of their stock under control and at a steady state, even if that does lag behind other parts of the UK in some areas."[37]

44. Yn ystod ei dystiolaeth, dywedodd Jonathan Fearn o Gonsortiwm Awdurdodau Lleol Cymru:

> "Performance indicators have become dirty words and are associated with bureaucracy and inefficiency. However, they can be a good driver for change and demonstrate an improving or worsening position over a trend analysis.
>
> "…Condition is important, but if you do not have the money to improve it, it is difficult to see what the benefit is of collecting lots of data for the sake of it. I think that pinpointed performance indicators are probably needed. The suite that CLAW commissions through the local government data unit is about right. There is, possibly, a need to encourage greater compliance and uptake with those measures across the board. The national assets working group, and particularly the IT work stream, is looking at a single property database for Wales across all sectors, and that would be a good way to achieve that, with everyone storing data in the same way. At the moment, different sectors are storing things in different ways.

[37] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad Rheoli Asedau, FIN(4) AM 05 - Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth [fel ar 11 Ebrill 2013]

> …A consistent set of performance indicators would go a long way to helping comparisons across and within the sectors."[38]

45. Mae'r diffyg cysondeb hwn o ran y wybodaeth sydd ar gael wedi'i adleisio mewn sesiynau tystiolaeth eraill, yn enwedig gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ar y pryd, mewn perthynas â'r GIG.[39]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cytuno â rhanddeiliaid perthnasol ar gyfres o ddangosyddion sydd wedi'u symleiddio, fel y gellir asesu ac adrodd yn glir a phriodol ar gyflwr a pherfformiad asedau. Wrth wneud hynny, dylid ystyried y gyfres o ddangosyddion a ddefnyddir yn yr Alban a Lloegr. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau o annog, neu orchymyn, casglu neu ddefnyddio dangosyddion y cytunir arnynt yn gyson ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.**

### Trefniadau cydweithio (*Systemau a phrosesau*)

46. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru'n cynnwys ymrwymiad i:

> "Archwilio ffyrdd arloesol, cydweithredol i Lywodraeth Cymru (yn edrych yn arbennig ar brofiadau'r Alban a Gogledd Iwerddon) ac eraill, fel awdurdodau lleol a'r sector preifat, allu rheoli asedau a chodi cyfalaf i'w fuddsoddi yn y seilwaith gwasanaethau cyhoeddus."[40]

47. Ni chafwyd unrhyw wybodaeth yn adroddiad cynnydd 2012 am elfen rheoli asedau'r ymrwymiad hwn.[41] Fodd bynnag, amlygir pwysigrwydd hyn yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

48. Mae Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn nodi:

> "Mae angen clir i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gydweithredu o ran yr ystad eiddo er mwyn cyflawni targedau

---

[38] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 49] 20 Chwefror 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[39] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [paragraffau 149-150] 6 Mawrth 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[40] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Cynnydd Rhaglen Lywodraethu 2012, Atodiad Gwasanaethau Cyhoeddus, Ymrwymiad 2/010 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[41] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Cynnydd Rhaglen Lywodraethu 2012, Atodiad Gwasanaethau Cyhoeddus, Ymrwymiad 2/010 [fel ar 11 Ebrill 2013]

ariannol a dyheadau darparu gwasanaethau, drwy gydweithredu o ran darparu gwasanaethau a rheoli asedau."[42]

49. Yn ei phapur cynharach i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog Cyllid:

> "O dan Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus (PSLG), mae'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol (NAWG) yn dal i symud ymlaen â rhaglen waith sy'n anelu at gyflawni'r agenda ar gyfer rheoli asedau ar y cyd. Y bwriad yw gwneud hyn trwy bennu, cynnal ac annog dulliau arloesol o reoli'r ystad gyhoeddus a'i hasedau cyfatebol gan sicrhau cyfleoedd i wella'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau a gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol.
>
> "Mae cydweithio yn hanfodol ar draws ystad ehangach y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn cyrraedd targedau ariannol a dyheadau o ran cyflenwi gwasanaethau. Ceir tair prif elfen i'r ymdrech i sicrhau cydweithio ym maes asedau'r sector cyhoeddus:
>
> – Cydweithio o ran cyflenwi gwasanaethau;
> – Cydweithio o ran rheoli asedau; a
> – Cydweithio o ran datblygu polisïau."[43]

50. Mae papur y Gweinidog hefyd yn nodi:

> "Does dim modd gorfodi cyrff i weithredu nac i gydweithio ond mae modd hybu newid trwy dynnu sylw at arferion gorau, datblygu a rhannu camau ymarferol, a galluogi cyrff i fesur pa mor bell y maent wedi datblygu gan ddefnyddio fframwaith safonol."[44]

51. Awgryma tystiolaeth a gafwyd mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor fod y dull o lunio trefniadau cydweithio yn amrywio. Mae rhai sefydliadau'n awyddus i ymgysylltu â phrosiectau rhannu asedau ac

---

[42] Llywodraeth Cymru, *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*, 2012 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[43] FIN(4) 02-13 Papur 2 – Tystiolaeth ar Reoli Asedau gan y Gweinidog Cyllid, Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[44] FIN(4) 02-13 Papur 2 – Tystiolaeth ar Reoli Asedau gan y Gweinidog Cyllid, Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]

ystyried rheoli asedau'n gynnar yn eu trefniadau cydweithio; mae eraill yn ystyried rheoli asedau fel rhwystr i gydweithio.[45]

52. Mewn perthynas â threfniadau cydweithio, mae'r papur gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn nodi enghreifftiau yn Lloegr a'r Alban, ond prin yw'r enghreifftiau o Gymru. Mae'n nodi:

> "Despite [Welsh] Government policy initiatives around encouraging local authorities to collaborate, this appears to be happening in isolated pockets and is certainly fairly rare when it comes to sharing property services or sharing of assets with other public bodies. The public bodies in Wales tend to operate as defined sectors with many practices and procedures around asset management being sector specific. This often creates challenges that actively discourage collaboration."[46]

53. Mae'r papur hefyd yn nodi, mewn perthynas â'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol a Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus:

> "…in our view, the work stream has not tackled some of the bigger issues around cultural and political barriers to collaboration and asset performance that are in desperate need of addressing."[47]

54. Mewn perthynas â threfniadau cydweithio, awgrymodd swyddogion o'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol:

> "There is an opinion that collaboration is quite difficult. In reality, it is. It is less to do with talking to one another and trying to reach consensus and more to do with some of the logistics around organisational governance, and boundaries around some of these regional collaborative agendas."[48]

---

[45] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Rheoli Asedau, Ymatebion i'r Ymgynghoriad, *FIN(4) AM 01 - Ceredigion* a *FIN(4) AM 02 - Blaenau Gwent* [fel ar 11 Ebrill 2013]

[46] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i Reoli Asedau, FIN(4) AM 05 – Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth [fel ar 11 Ebrill 2013]

[47] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i Reoli Asedau, FIN(4) AM 05 – Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth [fel ar 11 Ebrill 2013]

[48] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 72] 30 Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]

55. Mae ein tystiolaeth yn amlygu pwynt ehangach, sef bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i'w chael hi'n anodd i gydweithio ar y cyfan. Fodd bynnag, o ran rheoli asedau, mae'n glir fod proffil isel y maes hwn yn draddodiadol wedi golygu nad yw rhai prosiectau cydweithio'n ystyried elfen rheoli asedau prosiectau yn y cyfnod cynnar.

**Rydym yn argymell fod y Gweithgor Asedau Cenedlaethol yn cymryd camau i sicrhau bod pob prosiect cydweithio'n ystyried yn y cyfnod cynnar a oes, neu a ddylai bod, elfen rheoli asedau yn y prosiect.**

### Trosglwyddo tir ac eiddo (*Systemau a phrosesau*)

56. Datblygwyd Protocol Trosglwyddo Tir Llywodraeth Cymru gan y Gweithgor Asedau Cenedlaethol blaenorol ac mae'n gwneud y canlynol:

> "...sets out best practice for the transfer or disposal of land between public bodies in Wales.
>
> "The Land Transfer Protocol can be used by the Welsh public sector to help reduce cost and time associated with the transfer, use and disposal of the public estate between public bodies in Wales."[49]

57. Mae Protocol Gwaredu Tir ar gyfer Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru,[50] yn ceisio ystyried sut y gellir defnyddio tir dros ben i helpu i weithredu eu hamcanion o ddarparu tai fforddiadwy a datblygu cynaliadwy.

58. Yn ystod ein hymchwiliad, mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth ar y defnydd o'r ddau brotocol hyn ar waredu a throsglwyddo asedau tir o fewn sector cyhoeddus Cymru, a sut y mae'r protocol yn cael ei ddatblygu i wella'r trefniadau hyn. Dywedodd swyddogion o'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol wrth y Pwyllgor fod y Protocol

---

[49] Llywodraeth Cymru, Gweithgor Asedau Cenedlaethol, *Land Transfer Protocol: A Best Practice Guide for disposal & transfer of land and property assets between public bodies in Wales*, Chwefror 2011[fel ar 11 Ebrill 2013]

[50] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, FIN(4) 02-13 Papur 2 - Tystiolaeth ar Reoli Asedau gan Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus, Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]

Trosglwyddo Tir yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ei hun, a bod ei ddefnydd yn cael ei annog yn y sector cyhoeddus ehangach.[51]

59. Mewn perthynas â'r cymhellion i waredu asedau, dywedodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wrth y Pwyllgor fod gan gyrff iechyd hawl i gadw'r £500,000 cyntaf os ydynt yn derbyn derbyniadau gwaredu. Mae'n rhaid dychwelyd unrhyw beth dros y trothwy hwn i gyllideb adrannol y Gweinidog.[52]

60. Daeth i'r amlwg yng nghwestiynau'r Pwyllgor am y trothwy ei fod wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer, ac na fu llawer o waredu dros y terfyn - roedd y mwyafrif llethol yn is.[53]

61. Yn ystod ei hymddangosiad gerbron y Pwyllgor, bu Edwina Hart AC, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar y pryd, yn sôn am drefniadau ar gyfer trosglwyddo eiddo rhwng adrannau Llywodraeth Cymru a'r effaith ddilynol ar gyllideb ei hadran. Dywedodd:

> "…there is no clear protocol on options for the transfer of land between Government departments."[54]

62. Aeth ymlaen i egluro, pan fo'i hadran yn trosglwyddo tir i adran arall i fodloni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, er enghraifft, wrth ryddhau tir ar gyfer tai fforddiadwy, bod hyn yn creu costau i gyllideb ei hadran:

> "We have been prepared to do the financial stuff ourselves so far, but if it is always going to dig into our budgets, meaning it stops us doing other things that we need to do within the BETS portfolio and the way that it works strategically, it could prove quite difficult."

63. Wrth ymateb i gwestiynau, tynnodd Mrs Hart sylw at rai o'r anawsterau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo eiddo:

---

[51] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [paragraffau 144-145] 30 Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[52] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT[para 121] 6 Mawrth 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[53] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [paragraffau 143-146] 6 Mawrth 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[54] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 199] 6 Mawrth 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]

> "… we have an arrangement with colleagues in the housing department for looking at what possible land we can release. As I indicated, there are issues to do with transfer value and so on that impact our portfolio, but we are pretty keen to do it. We have had discussions about a number of sites with them, but, of course, they are in a difficult position, because the budget in housing is finite. They want the best deal that they can get with us, but that best deal then affects our resources. So, it comes back to the discussion that arose from a question from you, Chair, about how it should be dealt with if the Government is helping other departments with no-one losing out with regard to how they manage their portfolios as a result of any transfer."[55]

64. Yn ei llythyr dilynol i'r Pwyllgor, nododd y Gweinidog yn eglur y byddai'n trosglwyddo mwy o dir pe bai'r trefniadau iawndal ar gyfer yr adran yn gryfach:

> "Where assets within my portfolio align with policy objectives of other departments within Welsh Government, I have agreed to their transfer. However, there is no single protocol for land transfers between Government Departments. I would be minded to transfer more land provided that appropriate recompense is made to my department's budget."[56]

65. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig yn ymateb i gwestiynau penodol gan y Pwyllgor, tynnodd Cartrefi Cymunedol Cymru sylw at y 'gweithio heb ymwneud ag eraill' sy'n digwydd yn Llywodraeth Cymru:

> "To transfer land from one department of Welsh Government to another requires cross-departmental collaboration. Our experience at CHC has been that departments work in silos and it is very difficult to have cross-departmental discussions let alone transfer of assets, hence the reason why so few transfers have taken place despite a Protocol being in place.
>
> "CHC understands the budgeting mechanisms and organisational structure and culture Welsh Government operates within which upholds the internal departmental focus

[55] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [paragraffau 205 a 292-293] 6 Mawrth 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[56] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, *Llythyr gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth*, 4 Ebrill 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]

but we also recognise that Welsh Government is establishing a strategy that works across departments."[57]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad trylwyr o'r cymhellion a'r anghymhellion sy'n effeithio ar drosglwyddo asedau, o fewn Llywodraeth Cymru ei hun ac yn y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Yn benodol, credwn fod y ffaith fod cyrff iechyd ond yn gallu cadw'r £500,000 cyntaf yn unig o unrhyw ddêl am asedau yn llesteirio unrhyw weithgarwch ar raddfa fawr. Rydym yn argymell y dylid disodli hyn gyda chyfran y cytunir arni o gyfanswm gwerth yr ased, er mwyn annog trosglwyddiadau strategol ar raddfa fawr, pan fo hyn yn golygu rheoli eiddo'n briodol.**

**Rydym yn argymell bod cyrff cyhoeddus yn cael gwell cymhellion i reoli eu hasedau'n effeithiol, drwy sicrhau eu bod yn cael cadw cyfran briodol o unrhyw werth a geir yn sgil trosglwyddo neu waredu.**

**Rydym yn argymell y dylid defnyddio Strategaeth Rheoli Asedau Llywodraeth Cymru (fel y cyfeirir ati yn argymhelliad 2) i gynorthwyo i nodi asedau ac eiddo sydd ar gael ar gyfer eu trosglwyddo, naill ai rhwng adrannau, neu i sefydliadau eraill, er mwyn mynd i'r afael â'r gred bod adrannau'n gweithio heb ymwneud ag eraill. Dylid sicrhau bod trosglwyddiadau o'r fath yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol ehangach Llywodraeth Cymru a rhai adrannau unigol. O ystyried y pryderon mewn perthynas ag effaith trosglwyddiadau o'r fath ar gyllidebau adrannau, dylid sefydlu protocolau er mwyn sicrhau pan nodir asedau ar gyfer eu trosglwyddo, nad yw'r adran sy'n trosglwyddo yn cael ei llesteirio gan unrhyw effaith niweidiol bosibl ar gyllideb eu hadran.**

---

[57] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Rheoli Asedau, Gwybodaeth Ychwanegol, Cartrefi Cymunedol Cymru [fel ar 11 Ebrill 2013]

# 4. Adnoddau a gwerth am arian

**Yr adnoddau sydd ar gael fel rhwystr i wella**

66. Yn yr hinsawdd o gwtogi ar wariant sydd ohoni, awgrymodd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad a'r arolwg a gafwyd bod diffyg adnoddau yn rhwystro cynnydd a gwelliannau ym maes rheoli asesu. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:

> "One of the main issues that inhibits progress within Blaenau Gwent is a lack of resources. We are fortunate to have received NAWG and WG Invest to Save funding which means we can progress our Workplace Transformation, Collaborative Asset Management and LABV projects. However, there are some areas we still need to progress…"[58]

67. Mae tystiolaeth gan CLlLC wedi awgrymu bod adnoddau'n rhwystr posibl i welliannau ym maes rheoli asedau; dywedodd yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

> ...in times of diminishing resources targeting additional support to what may be perceived as 'back office' functions can be contentious."[59]

68. Fodd bynnag, wrth gael ei holi am hyn gan y Pwyllgor, roedd yn cydnabod y gellid gwneud arbedion fel hyn gan ddefnyddio asedau i alluogi darpariaeth gwasanaethau rheng flaen, ond y gallai'r penderfyniad i wneud unrhyw fuddsoddiad cychwynnol fel hyn fod yn anodd yn yr hinsawdd bresennol. Dywedodd CLlLC fod yr adnoddau sydd ar gael:

> "…is a barrier to the speed of progress. Everybody is on board with the idea that asset management is a tool that we can use to deliver. As I have said, it is more a case that, in the current financial position, things are getting tighter. We have to put our resources generally into front-line services rather than spend money on developing an asset database or a process of dealing with assets, which takes our resources away from such issues

---

[58] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Rheoli Asedau, Ymateb i'r Ymgynghoriad, *FIN(4) AM 02 - Blaenau Gwent* [fel ar 11 Ebrill 2013]

[59] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Rheoli Asedau, Ymateb i'r Ymgynghoriad *FIN(4) AM 03 – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru* [fel ar 11 Ebrill 2013]

as childcare and the education agenda. It is a balancing act, as you can well appreciate."[60]

Pan ofynnwyd pam mae cyfeirio adnoddau i faes rheoli asedau yn achos cynnen, dyma oedd ymateb Mr Chapman o CLlLC:

> "What I wrote was from an overview position in the WLGA. When you go into individual local authorities—to be fair, Carmarthenshire is probably one of the better ones in this area—you see that they can be quite progressive. They see these things slightly differently. It has to be contentious in a sense, because people have to make decisions about where things go."[61]

69. Ymddengys bod gwahanol safbwyntiau ar hyn ymysg gwahanol awdurdodau, gyda rhai'n awyddus i ystyried maes rheoli'r ystad er mwyn gwneud arbedion, ac eraill fel pe baent yn amharod i dargedu adnoddau fel hyn.[62]

70. Awgrymodd swyddogion o'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol nad oedd yn ymddangos bod yr awdurdodau hynny a oedd yn cymryd rhan mewn prosiectau peilot yn chwilio am adnoddau ychwanegol, ar y cyfan. Pan ofynnwyd am y rhwystr posibl o adnoddau'n cael eu targedu ar gyfer swyddogaethau 'cefn swyddfa', dywedodd Dr Helen Paterson, Cadeirydd y Gweithgor Asedau Cenedlaethol:

> "The assets of an organisation are a resource to enable it to develop in the direction that it wants to develop. So, the organisation, whatever it may be, is policy driven, service driven, and then focuses on its customers. I do not think that they are accurate in what they are saying, in the sense that I do not think that it is a focus on back-office functionality because the assets of an organisation, [...] are enablers of that policy development. Therefore, if you need to put some resource in, such as the small amounts of invest-to-save that make a massive difference in initiating those projects and getting them running—£50,000 to £60,000 can make a massive amount of difference—or even if you need to map the assets that you have

[60] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 63] 20 Chwefror 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[61] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 86] 20 Chwefror 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[62] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 75-86] 20 Chwefror 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]

with another organisation, with the aim of bringing them together in a small locality, thereby reducing the amount of back-office and office functionality so that you can get more services to the front line, that would be why you were doing it, not because you wanted to grow your asset team or your number of surveyors."[63]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru (drwy'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol) yn gwneud mwy i annog sefydliadau sector cyhoeddus i weld asedau fel 'galluogwyr' polisi a darpariaeth gwasanaethau ac i rannu'r arferion da a welir yn y maes hwn.**

### *Yr adnoddau sydd ar gael i'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol*

71. Yn ei hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor, mynegodd Swyddfa Archwilio Cymru bryder am lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol ei hun:

> "The Working Group has a challenging agenda ahead and the main constraint on progress is arguably the level of resource to drive forward its work."[64]

72. Pan grybwyllwyd hyn wrth swyddogion y Gweithgor Asedau Cenedlaethol, roeddynt yn cytuno bod adnoddau'n cyfyngu ar eu gwaith, ond yn ychwanegu:

> "… it would not necessarily all be resourced by the Welsh Government. This goes back to the theme that has been running throughout this: the Welsh Government should not be leading it—well, we should be leading it, but we should not be the only players in this; there is a responsibility across the whole of the public service to engage with this, and I just think that we are not quite there yet."[65]

### *Gwerth am arian*

73. Yn eu papur i'r Pwyllgor, mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn nodi:

---

[63] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 275] 30 Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[64] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Rheoli Asedau, Ymateb i'r Ymgynghoriad, *FIN(4) AM 06 – Swyddfa Archwilio Cymru* [fel ar 11 Ebrill 2013]
[65] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 281] 30 Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]

> "The way in which public sector organisations manage their assets, both strategically and operationally, directly affects their ability to deliver value for money and so deliver better outcomes for their citizens."[66]

74. Mae *Briffio Cenedlaethol Rheoli Adeiladau*[67] Swyddfa Archwilio Cymru o fis Mehefin 2010 yn cynnwys y casgliadau canlynol mewn perthynas â gwerth am arian:

> "Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario dros £500 miliwn y flwyddyn yn cynnal tir ac adeiladau gwerth tua £12 biliwn. Fodd bynnag, nid yw tir nac adeiladau'r rhan fwyaf o sefydliadau'n cadw'n wastad â gofynion newidiol ac, o ganlyniad, nid ydynt yn sicrhau'r gwerth gorau am arian.
>
> "Gallai sefydliadau gael gwerth gwell am arian o'u tir a'u hadeiladau drwy gynnal arfarniadau prosiect cadarnach, caffael ar y cyd a chynnal gwerthusiadau ôl-brosiect gwell."[68]

75. Roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom yn crybwyll diffyg adnoddau – ond mewn nifer o achosion, diffyg blaenoriaeth oedd y broblem. Credwn fod rheoli asedau'n effeithiol yn arbed arian. Gyda chyllid ychwanegol ar gael drwy Buddsoddi i Arbed ac (ar gyfer llywodraeth leol) y Gronfa Gydweithredu Ranbarthol, ni chredwn mai diffyg adnoddau yw'r prif rwystr i lwyddiant.

**Fodd bynnag, mae cwestiwn yn codi am gapasiti'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol i sbarduno'r agenda hon. Argymhellwn y dylai pob partner ystyried lefel yr adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni'r gwaith sy'n ddisgwyliedig gan y Gweithgor, ac a ddylai'r adnodd hwnnw ddod gan Lywodraeth Cymru, neu o gyfraniad wedi'i rannu ymysg yr holl bartneriaid.**

---

[66] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Ymchwiliad i Reoli Asedau, FIN(4) AM 05 – Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth [fel ar 11 Ebrill 2013]
[67] Swyddfa Archwilio Cymru, *Briffio Cenedlaethol Rheoli Adeiladau*, Mehefin 2010 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[68] Swyddfa Archwilio Cymru, *Briffio Cenedlaethol Rheoli Adeiladau*, Mehefin 2010 [fel ar 11 Ebrill 2013]

# 5. Arferion da

## Canolfan arbenigedd (Canllawiau ac arferion da)

### *Corff annibynnol sy'n arolygu sut y rheolir asedau*

76. Yn ystod ei ymchwiliad blaenorol i *Bwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf* , clywodd y Pwyllgor fod y Scottish Futures Trust (SFT) yn gweithredu fel canolfan arbenigedd mewn perthynas â rheoli asedau yn yr Alban. [69] Yn ei hadroddiad *Statement of Benefits 2011-12*, honodd yr SFT eu bod wedi cyflawni manteision ac arbedion net o £131.4 miliwn yn 2011-12. O'r cyfanswm hwn, amcangyfrifwyd bod £23.3 miliwn i'w briodoli i'w rôl fel canolfan arbenigedd ar gyfer rheoli asedau.[70] Mae'r *Statement of Benefits* yn mynd ymlaen i egluro ei rôl gynyddol yn y maes hwn:

> "… SFT has recently been tasked to champion a more collaborative approach to property asset management within the public sector. Working with public sector partners, this initiative is expected to realise cost efficiencies of over £500m as a direct result of a five year programme, as well as leading to improved service delivery, reducing the carbon footprint and releasing land for other uses." [71]

77. Yn ein hadroddiad *Pwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf*, argymhellodd y Pwyllgor:

> "Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwersi y gellid eu dysgu gan yr Alban ar rôl corff annibynnol i gydlynu'r gwaith o gynllunio rheolaeth asedau a gwneud penderfyniadau ar draws ffiniau amlasiantaeth."[72]

78. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan nodi:

> "Mae'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol yn gweithio gyda phartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus i ganfod a mynd i'r afael â themâu, materion o bwys a thueddiadau cyffredin ac i

[69] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 21], 2 Mai 2012 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[70] Scottish Futures Trust, *Statement of Benefits 2011-12*, Gorffennaf 2012 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[71] Scottish Futures Trust, *Statement of Benefits 2011-12*, Gorffennaf 2012 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[72] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, *Pwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf*, Gorffennaf 2012 [fel ar 16 Tachwedd 2012]

greu ymatebion iddynt. Er enghraifft, mae Protocol Trosglwyddo Tir wedi cael ei sefydlu, ynghyd â Chronfa Ddata Tir ac Eiddo'r Sector Cyhoeddus ar gyfer Cymru Gyfan. Gellir ystyried y gwersi a ddysgir o'r profiad hwn ochr yn ochr â gwybodaeth am y profiad yn yr Alban.

> "Goblygiadau ariannol - Pe bai corff annibynnol yn gwneud y gwaith hwn yn barhaus, byddai'r costau rhedeg yn cael eu dwyn ymlaen. Ar hyn o bryd, eir i Gostau Rhedeg Adrannol wrth i Lywodraeth Cymru ddefnyddio adnoddau i wella'r ffordd y cyd-gysylltir y gwaith o reoli asedau ar draws y sector cyhoeddus." [73]

79. Fodd bynnag, mae'r ymateb hwn yn cyfeirio at y Gweithgor Asedau Cenedlaethol, sy'n rhan o Lywodraeth Cymru, ac nid yw ei rôl mewn gwirionedd yn gysylltiedig â chydgysylltu cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â rheoli asedau. Yn ystod tystiolaeth, pwysleisiodd Dr Helen Paterson, Cadeirydd y Gweithgor, nad hyn yw eu rôl mewn gwirionedd a dywedodd:

> "I am not so sure that I would want there to be a centralised team, because the change within the organisation needs to be held, managed and owned by the individual organisation. It is fantastic to call upon a resource; maybe we could have more of that resource and a different kind of resource available. However, change within an organisation needs to be rooted in the organisation in order for it to be sustainable and for it to work appropriately. So, A.N.Other coming in to 'do to' an organisation does not make for a solid and robust organisation. I would not necessarily want that to happen."[74]

80. Yn ymateb y Gweinidog i gwestiynau gan y pwyllgor, daeth yn amlwg nad yw treigl amser wedi gwneud y Gweinidog Cyllid yn fwy agored i brofiad yr Alban.

**Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn credu bod ei dull yn cyflawni manteision tebyg i ddull mwy canolog Llywodraeth yr Alban, heb y costau a delir ymlaen llaw o sefydlu corff newydd. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n parhau**

---

[73] *Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Pwerau Benthyg a dulliau arloesol o ddefnyddio arian cyfalaf*, Awst 2012 [fel ar 11 Ebrill 2013]

[74] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 282] 30 Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]

**i fonitro canlyniadau y ddau ddull er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael manteision tebyg.**

### *Porth canolog ar gyfer rhannu sgiliau, arferion da a chanllawiau*

81. Yn ei phapur cynharach i'r Pwyllgor, amlinellodd y Gweinidog Cyllid nod y Gweithgor Asedau Cenedlaethol:

> "Nod y Gweithgor Asedau Cenedlaethol yw datblygu strwythur i helpu i sicrhau bod yr ystad gyhoeddus, yn cynnwys tir, yn cael ei defnyddio mor effeithlon ag y bo modd er mwyn hybu'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau a sicrhau gwerth am arian ar draws amrediad eang o asedau. Amcan y Gweithgor yw cydweithio â chyrff yn y sector cyhoeddus i ddylanwadu a pherswadio er mwyn hybu newid yn y ffordd y mae asedau cyhoeddus yn cael eu caffael, eu gweithredu a'u rhannu a'u gwaredu."[75]

82. Ym mis Ebrill 2012, dyma a nododd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, yn ei adroddiad ar adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus Swyddfa Archwilio Cymru:

> "Canfu'r Archwilydd Cyffredinol mai un o'r prif heriau i'r grŵp newydd yw gweithredu syniadau a ddatblygwyd o dan y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi, a oedd yn canolbwyntio ar drosglwyddo arfer 'da' neu 'orau' rhwng gwasanaethau cyhoeddus. Dywedodd fod y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi:
>
> "[…]wedi gwneud cynnydd da o ran nodi arfer da a dulliau gweithredu […]byddai'n fuddiol pe bai mwy o eglurder ynghylch sut y mae'n bwriadu cael gwasanaethau cyhoeddus i rannu'r arferion hynny, dysgu oddi wrthynt, eu mabwysiadau neu eu haddasu.
>
> "Rydym yn croesawu camau gan Lywodraeth Cymru i ymgysylltu ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i'w hannog i rannu pryderon ac arfer da. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod tystiolaeth yr ymchwiliad yn dangos, er bod pethau da yn

---

[75] FIN(4) 02-13 Papur 2 – Tystiolaeth ar Reoli Asedau gan y Gweinidog Cyllid, Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]

digwydd yng Nghymru, nad yw arfer da yn cael ei ddefnyddio'n gyson."[76]

83. Aeth adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymlaen i wneud yr argymhellion canlynol:

> "Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dulliau presennol o rannu arfer da, fel hyrwyddo'r defnydd o Gyfnewid Arfer Da ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn dwyn at ei gilydd mewn ffordd systematig nodweddion arfer da o bob rhan o'r sector cyhoeddus, ac i sicrhau y gellir trosglwyddo arfer o'r fath yn lleol."[77]

84. Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn cyfleu darlun cymysg o ran y canllawiau a'r arferion da a oedd ar gael. Nododd Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru, a luniodd ganllawiau ar reoli asedau i lywodraeth leol, fod y canllawiau cyfredol gan gyrff proffesiynol yn ddigonol ac nad oedd angen canllawiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.[78] Ar y llaw arall, er bod cyfleusterau ar gael ar gyfer rhannu arferion da a chanllawiau, nododd rhai awdurdodau lleol nad yw'n ymddangos eu bod yn cael eu defnyddio na'u diweddaru, ac y byddai adnodd a fyddai'n cael ei gynnal a'i ddiweddaru'n rheolaidd yn ganolog yn ddefnyddiol iawn.[79]

85. Dywedodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth:

> "We do not detect much evidence of organisations actively seeking out that good practice."[80]

86. Maes pellach y tynnwyd sylw ato yw'r lefel sgiliau, y capasiti a'r gallu mewn perthynas â rheoli asedau yn y sector cyhoeddus ehangach.

---

[76] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*, Ebrill 2012 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[77] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*, Ebrill 2012 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[78] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Ymatebion i'r Ymgynghoriad *FIN(4) AM 07 – Cymdeithas y Prif Syrfewyr Ystadau – Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru* [fel ar 11 Ebrill 2013]
[79] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Rheoli Asedau, Ymatebion i'r Ymgynghoriad, *FIN(4) AM 02 - Blaenau Gwent* a *FIN(4) AM 08 – Cyngor Dinas Caerdydd* [fel ar 11 Ebrill 2013]
[80] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Rheoli Asedau, Ymatebion i'r Ymgynghoriad *FIN(4) AM 05 – Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth* [fel ar 11 Ebrill 2013]

87. Mewn tystiolaeth, crybwyllodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fod llawer o'r staff a oedd yn ymwneud â rheoli asedau yn dod o wahanol gefndiroedd proffesiynol ac felly mae'r sylfaen sgiliau'n amrywio:

> "…it is fair to say that there is a different skill base available to different organisations across Wales. There are inconsistent levels. My organisation is a central, shared service, but the ultimate responsibility for the health care estate rests with the health boards. The resources that are available to different organisations to assist them with that local asset management planning process are variable."[81]

88. Yn eu hymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd Cyngor Blaenau Gwent:

> "…there are some areas we still need to progress, particularly those involving non-traditional approaches that we have limited or no experience of. We are not able to utilise consultancy due to budget constraints. WG (Welsh Government) did at one time consider a secondment scheme for their property staff. A centralised WG Asset Management Team to provide specialist consultancy as needed could be a significant benefit."[82]

89. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig i swyddogion y Pwyllgor, nododd y Gweithgor Asedau Cenedlaethol rôl Is-adran Eiddo Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor i adrannau eraill:

> "Mae'r Is-adran Eiddo – Ystadau (PPCS) yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, ar bob mater sy'n ymwneud ag asedau tir ac eiddo. Cynigir peth o'r cyngor i'r Adrannau trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth ffurfiol. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y perfformiad yn bodloni gofynion adrannau'r cleientiaid e.e. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (Yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS)) yn cynnig gwasanaeth sicrhad annibynnol ar brosiectau cyfalaf gan roi

---

[81] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, CyT [para 171] 20 Chwefror 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]
[82] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, Rheoli Asedau, Ymatebion i'r Ymgynghoriad, *FIN(4) AM 02 - Blaenau Gwent* [fel ar 11 Ebrill 2013]

sicrhad ar 'werth am arian' a chyngor ar gydymffurfio â rheoliadau Ewropeaidd i gyrff mewnol ac allanol."[83]

90. Fodd bynnag, nid yw'n glir faint o gymorth o'r fath sydd ar gael i'r sector cyhoeddus ehangach.

91. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn cydnabod nad yw'r ffynonellau canllawiau ac arferion da sydd ar gael fel pe baent yn cael eu defnyddio na'u diweddaru'n eang.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio drwy Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod enghreifftiau o arferion da yn cael eu rhannu, nid yn unig ymysg y rhai ym maes rheoli asedau, ond hefyd ymysg uwch arweinwyr er mwyn sicrhau bod enghreifftiau da yn cael eu rhoi ar waith.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a ellid sicrhau bod yr arbenigedd sydd ganddi eisoes ymysg ei staff ei hun ar gael yn ehangach i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, a dylai bwyso a mesur y posibilrwydd o secondiadau i/o feysydd eraill o'r sector cyhoeddus.**

---

[83] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Cyllid, *FIN(4) 02-13 Papur 2 - Tystiolaeth ar Reoli Asedau gan Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus*, Ionawr 2013 [fel ar 11 Ebrill 2013]

# Atodiad A

Cylch gorchwyl

Ystyried:

- A yw rheoli asedau yn gysylltiedig ag amcanion polisi ac amcanion strategol ehangach, yn Llywodraeth Cymru, a thrwy'r sector cyhoeddus yn ehangach
- Pa gynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru i reoli asedau mewn modd strategol, a chyflwyno mentrau ar gyfer gwella effeithiolrwydd y dulliau o reoli asedau drwy'r sector cyhoeddus yng Nghymru (gan gyfeirio'n benodol at y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2010)[84]
- Pa wersi y gellir eu dysgu o arferion da yng Nghymru, neu yn rhywle arall, ar hyn o bryd, o ran y modd y gellir gwella dulliau rheoli asedau yn y sector cyhoeddus.

[84] Swyddfa Archwilio Cymru, *Briffio Cenedlaethol Rheoli Adeiladau*, Mehefin 2010. Trafodir yr adroddiad hwn yn adran 5.1 yr adroddiad briffio hwn. Mae'n crynhoi canfyddiadau'r gwaith a wnaed ar draws 30 o'r cyrff sector cyhoeddus mwyaf yng Nghymru. [fel ar 16 Tachwedd 2012].

## Tystion

92. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth yn http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1243

| | |
|---|---|
| **30/01/2013** | **Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus** |
| Dr Helen Paterson | Cadeirydd rheoli asedau, Grŵp Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Sioned Evans | Grŵp Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus |
| | |
| **20/02/2013** | **Grŵp Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** |
| Phil Fiander | Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio |
| Mathew Brown | Rheolwr y Gronfa Fuddsoddi Cymunedol |
| Peter Williams | Cyfarwyddwr, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru |
| | **Cydwasanaethau GIG Cymru** |
| Neil Davies | *Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaeth Cyfleusterau, Cydwasanaethau GIG Cymru* |
| | **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** |
| Christopher Chapman | Rheolwr Rhaglen – Effeithlonrwydd a Chaffael |
| Jonathan Fearn | Cadeirydd Grŵp ar y Cyd CLAW/ACES ar Eiddo ac Ystadau |
| | |
| **06/03/2013** | **Llywodraeth Cymru** |
| Lesley Griffiths | Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Mark Osland | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant |

| | |
|---|---|
| Val Whitting | Pennaeth Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau, Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Edwina Hart | Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth |
| James Price | Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth |
| Chris Sutton | Aelod Bwrdd Parth Menter Canol Caerdydd ac Aelod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardrethi Busnes |
| | |
| **18/04/2013** | **Llywodraeth Cymru** |
| Lesley Griffiths AC | Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth |
| Piers Bisson | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Jane Hutt AC | *Y Gweinidog Cyllid* |
| Sioned Evans | *Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Eiddo* |
| | |
| **24/04/2013** | **Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth** |
| David Bentley, | *Pennaeth Rheoli Asedau, Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth* |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=4996

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | AM 01 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | AM 02 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | AM 03 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | AM 04 |
| Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus Cyfrifeg | AM 05 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | AM 06 |
| Mae Cymdeithas Syrfewyr Ystadau Weithredwr – Mae Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru | AM 07 |
| Cyngor Dinas Caerdydd | AM 08 |
| **Arolwg Rheoli Asedau Chwefror 2013** | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | AMS 01 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | AMS 02 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen | AMS 03 |
| Castell-nedd Port Talbot Coleg | AMS 04 |
| Hywel Dda Local Health Boards | AMS 05 |
| Coleg Morgannwg | AMS 06 |
| Pembrokshire County Council | AMS 07 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | AMS 08 |
| Cyngor Wrecsam | AMS 09 |

| | |
|---|---|
| Glyndwr University | AMS 10 |
| Comisiynydd Pobl Hŷn | AMS 11 |
| Cyngor Bwrdeisdref Sirol Rhondda Cynon Taff | AMS 12 |
| Gyngor Bro Morgannwg | AMS 13 |
| Cyngor Sir Ddinbych | AMS 14 |
| Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent | AMS 15 |
| Cyngor Sir Caerdydd | AMS 16 |
| Cyngor Sir y Fflint | AMS 17 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | AMS 18 |
| Abertawe Bro Morgannwg University Health Board | AMS 19 |